

## **Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Brenhinol Morgannwg –  
Canolfan Eni Tirion / Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Morgannwg

Dyddiad arolygu: 10, 11 a 12  
Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Rhagfyr  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf? .....	27
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella uniongyrchol .....	32

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ar 10, 11 a 12 Medi 2019. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth<sup>1</sup>. Ymwelwyd â'r canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Canolfan Eni Tirion (y cyfeirir ati drwy gydol yr adroddiad fel y ganolfan eni).

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o arolygwyr AGIC (gan gynnwys un arweinydd), dau adolygwr cymheiriaid ac un adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

---

<sup>1</sup> <https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth>

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Roedd y staff yng Nghanolfan Eni Tirion yn dangos brwdfrydedd ac awydd clir i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, mewn amgylchedd cartrefol, hamddenol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a charedigrwydd
- Roedd y ganolfan eni yn hynod lân a thaclus ac roedd y dodrefn o safon uchel
- Roedd y staff yn ymrwymedig i gefnogi dewisiadau geni unigol y menywod
- Roedd y gwasanaeth yn gallu cynnig amrywiaeth o ddsbarthiadau i fenywod yn ystod y cyfnod cynenedigol
- Roedd proses glir ar gyfer cynnal archwiliadau perthnasol a rheolaidd yn y ganolfan eni er mwyn cynnal safonau
- Roedd sesiynau myfyrio wythnosol yn galluogi'r staff i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt a chefnogi datblygiad arferion
- Roedd y staff yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a'u bod yn teimlo'n ddigon hyderus i godi unrhyw faterion a oedd yn peri pryder.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud rhai mân welliannau i'r broses o gadw cofnodion er mwyn sicrhau cysondeb ymhlith yr holl aelodau o'r staff
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw dan glo bob amser
- Ystyried a oes nifer digonol o weithwyr cymorth gofal iechyd i gyflenwi yn ystod cyfnodau o salwch a/neu absenoldeb.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi'i leoli yn Llantrisant ac mae'n un o'r gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cafodd y bwrdd iechyd ei sefydlu ar 1 Ebrill 2019 ac mae'n darparu gwasanaethau yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae dalgylch y bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn cynnwys tua 450,000 o bobl. Darperir gwasanaethau aciwt, canolraddol, sylfaenol a chymunedol, yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl. Darperir gwasanaethau mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys tri ysbyty cyffredinol dosbarth: Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i bob menyw a'i theulu sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaethau mamolaeth hefyd yn darparu gofal i fenywod sy'n dewis rhoi genedigaeth yng nghyfleusterau'r bwrdd iechyd sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol.

Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth o fewn y bwrdd iechyd ddewis o nifer o leoliadau geni. Mae'r rhain yn cynnwys geni yn y cartref, uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd, gofal a arweinir gan fydwragedd mewn unedau a arweinir gan fydwragedd ochr-yn-ochr ac unedau obstetrig. Mae Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn darparu gwasanaethau mamolaeth mewn canolfan eni annibynnol a arweinir gan fydwragedd, a elwir yn Ganolfan Eni Tirion.

Agorodd Canolfan Eni Tirion ym mis Mawrth 2019, yn dilyn ailgynllunio gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael eu darparu mewn canolfan eni annibynnol a arweinir gan fydwragedd.

Ym mis Ebrill 2019, penderfynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd (wedi'u lleoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl) yn destun mesurau arbennig<sup>2</sup>. Gwnaed hyn yn dilyn adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau mamolaeth gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.<sup>3</sup>

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/gwasanaethau-mamolaeth-cwm- taf-morgannwg-mewn-mesurau-arbennig-wrth-i-adroddiad-nodi-methiannau>

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/adolygiad-o-wasanaethau-mamolaeth-bwrdd-iechyd-prifysgol-cwm- taf>



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn canu clodydd y gofal a'r cymorth a ddarparwyd gan staff y ganolfan eni.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion a oedd yn cynnal urddas y cleifion.

Roedd staff y ganolfan eni yn darparu amrywiaeth o ddsbarthiadau cynenedigol, gan roi cymorth, dewis a gwybodaeth i'r cleifion ynghylch y cynlluniau geni o'u dewis.

Roedd dodrefn o safon uchel yn y ganolfan eni, gan olygu bod modd darparu gofal i'r cleifion mewn amgylchedd cartrefol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â'r cleifion yn y ganolfan eni. Oherwydd y nifer isel o gleifion ar adeg yr arolygiad, gwnaethom hefyd ffonio'r cleifion a oedd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar yn y ganolfan eni er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Byddai'n amhosibl gofyn am brofiad gwell."*

*"Roedd yr enedigaeth yn hyfryd."*

*"Cyfrannodd yr awyrgylch digynnwrf yn yr uned at enedigaeth ddigynnwrf a gwych. Roedd gwybod bod y bydwragedd wedi cael hyfforddiant ar roi genedigaeth drwy hypnoteiddio yn golygu fy mod yn teimlo'n hyderus y byddwn yn cael yr enedigaeth roeddwn i wedi'i dewis."*

## Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth ar gael i'r cleifion ei darllen ym mhob rhan o'r ganolfan eni. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â chynghor bwydo ar

y fron a chysylltiad croen â chroen yn cael ei harddangos, er mwyn hysbysu'r cleifion am fanteision bwydo ar y fron a chysylltiad croen â chroen i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u gofal.

Dywedwyd wrthym fod cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei ddarparu yn ystod apwyntiadau a dosbarthiadau cynenedigol, a bod grŵp cymorth ar gael i'r menywod hynny sydd am roi'r gorau i smygu yn ystod beichiogrwydd.

Dywedwyd wrthym fod gan y ganolfan achrediad cyfeillgar i fabanod UNICEF,<sup>4</sup> ond ni welsom unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am hyn. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a fyddai arddangos y wybodaeth hon i'r cleifion yn fuddiol. Penodwyd bydwaig i fod yn gydgysylltydd bwydo babanod ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd, ond dywedwyd wrthym fod yr oriau cymorth wedi cael eu lleihau'n ddiweddar oherwydd newidiadau i'r personél. Mynegwyd rhai pryderon am hyn. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr, a ddywedodd wrthym eu bod yn ystyried defnyddio adnoddau cyfredol mewn ffyrdd gwahanol, er mwyn sicrhau bod lefelau priodol o gymorth yn cael eu darparu i'r staff a'r cleifion.

Roedd y cleifion yn gallu cael dychwelyd i'r ganolfan eni er mwyn cael cymorth bwydo ar y fron gan y staff. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o hyn a dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael cymorth ardderchog, gan eu galluogi i barhau i fwydo ar y fron.

## **Gofal ag urddas**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion ac ni welsom unrhyw feysydd pryder o ran darparu gofal ag urddas yn y ganolfan eni.

Roedd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn canu clodydd y cymorth a gafodd ei ddarparu gan y staff yn ystod eu beichiogrwydd, y cyfnod esgor ac yn ystod gofal ôl-enedigol. Roedd y staff yn y ganolfan eni yn cynnal dosbarthiadau, megis rhoi genedigaeth drwy hypnoteiddio<sup>5</sup>, dechrau'r cyfnod esgor<sup>6</sup>, genedigaeth dŵr, bwydo ar y fron a dosbarthiadau ôl-enedigol<sup>7</sup>.

---

<sup>4</sup> <https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/>

<sup>5</sup> Mae rhoi genedigaeth drwy hypnoteiddio yn ddull o reoli poen y gellir ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth. Mae'n ymwneud â defnyddio cymysgedd o dechnegau delweddu, ymlacio ac anadlu dwfn.

Roedd y ganolfan eni wedi cael ei hailwampio a'i haddurno i safon uchel yn ddiweddar, a gwelsom fod hyn yn creu amgylchedd cynnes, croesawgar a chartrefol. Roedd dau bwl geni, a oedd yn cynnwys goleuadau awyrgylch cyfnewidiol. Roedd ystafelloedd en-suite ar gael a oedd yn cynnwys gwelyau dwbl, gan olygu y gallai partneriaid y cleifion aros gyda nhw dros nos. Roedd dodrefn meddal a oedd yn helpu i greu amgylchedd cartrefol. Roedd gynau nos a sliperi hefyd ar gael i'r cleifion eu defnyddio.

Roedd cegin fach i'r cleifion a'u partneriaid, gan olygu bod modd iddynt wneud byrbrydau a diodydd poeth pryd bynnag yr oeddent am wneud hynny.

Dywedwyd wrthym fod y ganolfan eni yn gofalu am y cleifion sy'n cael eu hystyried yn risg isel, a byddai unrhyw gleifion yn cael eu trosglwyddo i uned obstetrig, pe bai unrhyw arwydd o risg i'r fam neu'r baban.

Nododd y staff yn yr uned y byddent yn gallu gofalu'n briodol am unrhyw rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Er nad oedd ystafell brofedigaeth bwrpasol yn yr uned, dywedodd y staff wrthym y byddent yn gallu rhoi cymorth a gofal i unrhyw gleifion a oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar mewn un o'r ystafelloedd ôl-enedigol. Roedd gwelyau dwbl yn yr ystafelloedd hyn, gan olygu y byddai partneriaid yn gallu aros hefyd. Roedd y bwrdd iechyd wedi penodi bydwraig profedigaeth a fyddai'n gallu cynnig y cymorth priodol pan fo angen.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Gwelsom fod y cyfarwyddiadau i'r ganolfan eni wedi'u harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty, gan olygu bod y cleifion yn gallu dod o hyd iddi'n ddidrafferth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellir cael gafael ar y rhain.

Dywedwyd wrthym fod cynlluniau i gynnal dau ddiwrnod agored yn y ganolfan eni, gan roi cyfle i'r cleifion siarad â gweld y cyfleusterau. Y nod oedd

---

<sup>6</sup> Dechrau'r cyfnod esgor

<sup>7</sup> Yr hyn y dylid ei ddisgwyl ar ôl i'r baban gael ei eni

hyrwyddo'r gwasanaeth a'r cyfleusterau a oedd ar gael i'r cleifion a darparu gwybodaeth i helpu'r cleifion i wneud penderfyniad hyddysg. Gwnaethom annog y bwrdd iechyd i sicrhau bod y diwrnodau agored hyn yn cael eu cynnal, er mwyn rhoi manylion am yr holl opsiynau geni sydd ar gael i ddarpar gleifion.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn ynghylch y rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn y ganolfan eni. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gwrando arnynt ac yn cymryd camau i ddiwallu eu hanghenion a bodloni eu dymuniadau.

Gwelsom fod y staff yn yr uned eni'n cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau trosglwyddo sifftiau. Gwnaed hyn er mwyn rhannu a thrafod anghenion a chynlluniau'r cleifion gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei nodi ar hysbysfwrdd cleifion, a oedd yn cael ei gadw yn swyddfa'r staff, gan ddarparu gwybodaeth gyfredol am y cleifion. Roedd hefyd yn cynnwys manylion y bydwagedd cymunedol ar alwad ac roedd y rhain yn cael eu gwirio bob dydd i sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf pe bai angen galw arnynt.

### **Gofal amserol**

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau'n rheolaidd fod anghenion personol y cleifion, a'u hanghenion o ran maeth, yn cael eu bodloni, a'u bod yn gyfforddus. Gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion gofal y cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn rhoi sylw i'w hanghenion.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod prosesau priodol ar waith i sicrhau y byddai cleifion yn cael eu trosglwyddo i uned obstetrig mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cyfarfod ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn ddiweddar i sicrhau bod amseroedd trosglwyddo cleifion yn briodol. Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant er mwyn helpu'r broses o drosglwyddo cleifion yn ddidrafferth.

Roedd y cleifion yn cael cynnig yr opsiwn o gael eu hapwyntiad cynenedigol 36 wythnos yn y ganolfan eni. Fel arfer, byddai bydwagedd cymunedol yn gyfrifol am hyn, ond dywedwyd wrthym fod nifer o swyddi gwag yn y tîm bydwagedd cymunedol tan yn ddiweddar, a oedd yn golygu y gallai'r apwyntiadau hyn gael eu gohirio. Dywedwyd wrthym fod y swyddi gwag hyn wedi cael eu llenwi'n ddiweddar. Roedd staff y ganolfan eni yn gallu cynnig rhai apwyntiadau i'r cleifion, gan olygu y gellid eu gweld mewn modd amserol.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn yr uned eni wrthym eu bod yn llwyddo i ddarparu gofal o safon uchel yn ystod eu diwrnod gwaith.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd y ganolfan eni ar lawr cyntaf yr ysbyty ac yn hygyrch iawn drwy lifftiau neu risiau. Roedd manau parcio dynodedig ar gyfer gollwng y cleifion gan olygu bod modd iddynt ddod i mewn i'r ganolfan eni yn haws.

Roedd y cyfleusterau ym mhob rhan o'r ganolfan eni yn hygyrch, gan olygu bod modd i'r cleifion symud o gwmpas mewn amgylchedd heb rwystrau.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn parchu eu cynlluniau geni. Dywedodd un claf:

*"Roedd y fydwraig yn ymwybodol fy mod i wedi cael dosbarthiadau genedigaeth drwy hypnoteiddio a fy mod am gael cyn lleied o ymyrraeth â phosibl."*

Roedd gwelyau dwbl ar gael yn y ganolfan eni, gan olygu bod partneriaid yn gallu aros a chefnogi'r cleifion a'r babanod yn ystod y cyfnod esgor a'r cyfnod ôl-enedigol.

Roedd bydwraig ymgynghorol y ganolfan eni yn cynnal clinigau dewisiadau geni rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys mynd o gwmpas y ganolfan eni a thrafodaethau â menywod a'u partneriaid am yr opsiynau geni a oedd ar gael iddynt. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth i fenywod a'u partneriaid a oedd yn eu helpu i wneud penderfyniadau hyddysg am eu gofal.

### **Hawliau pobl**

Roedd teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym fod trefniadau ymweld agored ar gael, gan ganiatáu i'r partner, neu rywun dynodedig arall, ymweld yn rhydd.

Roedd llawer o adnoddau yn yr holl ystafelloedd geni er mwyn helpu i fodloni dewisiadau geni'r cleifion. Roedd dwy o'r ystafelloedd geni hefyd yn cynnwys pyllau geni a oedd yn galluogi'r cleifion i ddefnyddio'r pwll wrth esgor.

### **Gwrando ar adborth a dysgu ohono**

Gwelsom daflenni gwybodaeth a phosteri yn y ganolfan eni mewn perthynas â gweithdrefn gwyno Gweithio i Wella y GIG<sup>8</sup> y dylai'r cleifion ei dilyn pe bai ganddynt bryderon am eu gofal. Dywedodd y staff a'r rheolwyr wrthym y byddent yn ceisio ymdrin â ffynhonnell unrhyw gwynion, gyda'r nod o'u datrys yn gyflym. Er na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol ers i'r ganolfan eni agor, disgrifiodd y staff a'r rheolwyr y broses y byddent yn ei dilyn pe bai un yn dod i law.

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos am y Cyngor Iechyd Cymuned<sup>9</sup>, gan roi manylion am y cymorth a oedd ar gael gan sefydliad annibynnol pe bai claf am godi pryder.

Gwelsom fod llawer o gardiau diolch oddi wrth y cleifion wedi'u harddangos yn y ganolfan eni, yn diolch am y gofal a'r cymorth a gawsant gan y staff. Roedd y cleifion hefyd yn gallu gadael adborth drwy lyfr gwesteion, gan olygu bod y cleifion yn gallu darllen am brofiadau pobl eraill.

Roedd sesiynau myfyrio wythnosol yn cael eu cynnal i'r staff yn y ganolfan eni (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn) ac roedd pryderon, digwyddiadau neu broblemau yn cael eu trafod gyda'r nod o rannu'r gwersi a oedd yn cael eu dysgu ymhlith y tîm. Roedd adborth y cleifion hefyd yn cael ei drafod yn ystod y sesiynau hyn.

Roedd cyfarwyddiaeth gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd wedi rhoi cyfarfod llywodraethu misol ar waith yn ddiweddar. Gwelsom yn ystod y cyfarfod hwn fod eitem sefydlog ar yr agenda lle roedd adborth gan y menywod yn cael eu trafod. Y bwriad oedd rhannu adborth y cleifion â phob rhan o'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau mamolaeth a dysgu gwersi ohono.

---

<sup>8</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

<sup>9</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff yn gwrando ar ddewisiadau geni'r cleifion ac yn eu cefnogi.

Roedd y ganolfan eni yn lân ac yn daclus, gan gynnal safonau rheoli heintiau.

Gwelsom fod yr amgylchedd a'r cyfarpar yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio o hyd, gyda goruchwyliaeth reolaidd gan y rheolwyr.

Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cadw i safon dda, gyda rhai mân welliannau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cynnal safon uchel.

Dylid ystyried gosod gel saniteiddio dwylo wrth fynedfa'r ganolfan eni.

Roedd y staff yn cael eu hatgoffa i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel ac o olwg y cyhoedd bob amser.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Gwelsom fod y ganolfan eni yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau na pheryglon. Byddai arweinydd gweithredol y ganolfan eni yn cerdded o gwmpas bob dydd ac yn nodi unrhyw faterion roedd angen eu huwchgyfeirio i'r adran briodol o fewn y bwrdd iechyd i'w hunioni.

Roedd yn rhaid i'r staff hefyd gynnal nifer o archwiliadau o'r ganolfan eni, er mwyn helpu i sicrhau ei bod yn ddiogel i'w defnyddio o hyd. Roedd y rhain yn cynnwys archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys, y pwll geni (er mwyn sicrhau ei fod wedi cael ei lanhau), tymereddau storio meddyginiaeth, diogelwch tân a'r system monitro babanod drwy fandiau electronig. Gwelsom gofnodion i ddangos bod y rhain wedi cael eu cynnal yn gyson. Roedd y cofnodion hefyd yn

dangos bod arweinydd gweithredol y ganolfan eni yn goruchwylio'r gweithgarwch hwn er mwyn sicrhau ei fod wedi cael ei gwblhau. Dywedwyd wrthym hefyd fod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r uwch-reolwyr yn rheolaidd.

Roedd y ganolfan eni yn defnyddio system tagio electronig er mwyn helpu i atal pobl rhag mynd â babanod allan o'r ward heb ganiatâd. Gwelsom fod y system hon yn cael ei defnyddio yn ystod yr arolygiad. Roedd rhan o'r archwiliadau dyddiol gan y staff yn cynnwys cadarnhau bod y tagiau electronig yn gweithio, a chawsom sicrwydd y byddai camau priodol yn cael eu cymryd i gynnal diogelwch pe bai problem yn codi gyda'r tagiau.

Gwelsom gofnodion yn dangos bod hyfforddiant sgiliau ac ymarferion rheolaidd yn cael eu cynnal yn y ganolfan eni, gan olygu bod modd i'r staff ymarfer eu gweithdrefnau brys er mwyn sicrhau eu bod yn barod am argyfwng. Roedd yr enghreifftiau a nodwyd yn cynnwys gwagio'r pwll geni a'r broses drosglwyddo i uned famolaeth obstetrig. Dywedwyd wrthym y byddai staff y ganolfan eni yn trafod eu sgiliau a'u hymarferion mewn cyfarfod myfyrio wythnosol, er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd a phrofiadau. Roedd y staff bydwreigiaeth gymunedol hefyd yn cael eu gwahodd i ddod i'r sesiynau hyn, er mwyn helpu i sicrhau bod gan bob aelod o'r staff a oedd yn defnyddio'r ganolfan eni yr un wybodaeth am ei gweithdrefnau brys.

Dywedwyd wrthym fod y ganolfan eni wedi gwahodd aelod o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i rannu gwybodaeth yn ddiweddar am y cyfarpar a oedd yn cael ei gadw mewn ambiwlans ar gyfer genedigaethau. Dywedwyd wrthym fod y drafodaeth hon yn un gadarnhaol a chynhyrchiol, gan alluogi'r tîm i ddeall pa gyfarpar a oedd yn ofynnol a sut y gallai tîm y ganolfan eni gefnogi'r staff ambiwlans yn llawn wrth drosglwyddo claf.

### **Atal cwmpiadau**

Roedd y ganolfan eni yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon baglu. Roeddem yn gallu gweld bod asesiad risg wedi cael ei gynnal mewn cysylltiad â'r pyllau geni a bod cyfarpar addas ar gael i roi cymorth uniongyrchol i'r rhai roedd angen eu symud allan o'r pyllau yn gyflym. Dywedodd y staff wrthym fod sesiynau hyfforddi rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu cadw'n gyfredol o ran gwagio pyllau.

### **Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod y ganolfan eni yn hynod lân a thaclus.



Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y pyllau geni yn cael eu glanhau bob dydd, p'un a oeddent wedi cael eu defnyddio ai peidio). Roedd y dŵr hefyd yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael ym mhob rhan o'r ganolfan eni i'r staff ei ddefnyddio. Gwelsom aelodau o'r staff yn cynnal safonau 'noeth o dan y penelin<sup>10</sup>.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo fel sbardun gweledol ar gyfer y staff. Er bod gel saniteiddio alcohol ar gael y tu mewn i'r ganolfan eni, nid oedd un ar gael wrth i staff, cleifion ac ymwelwyr gyrraedd.

Roedd cynorthwydd gofal iechyd yn cynnal archwiliad hylendid dwylo wythnosol, er mwyn helpu i sicrhau bod sgiliau golchi dwylo'r staff yn gyfredol. Gwelsom dystiolaeth bod hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen gel saniteiddio alcohol ychwanegol wrth fynedfa'r ganolfan eni er mwyn helpu i reoli heintiau'n effeithiol.

#### Maeth a hydradu

Roedd cegin fach yn y ganolfan eni, a oedd yn golygu bod modd i'r staff wneud bwyd i'r cleifion. Roedd tegell ar gael ym mhob ystafell hefyd, fel y gallai'r cleifion wneud diodydd poeth iddynt eu hunain yn ôl yr angen.

Roedd y cleifion yn cael prydau bwyd o gegin yr ysbyty a gallent ddewis beth roeddent am ei gael i'w fwyta. Yna byddai'r staff domestig yn gweini prydau bwyd i'r cleifion yn eu hystafelloedd unigol. Dywedwyd wrthym fod amrywiaeth o brydau bwyd ar gael, gan gynnwys darparu ar gyfer gofynion deietegol.

---

<sup>10</sup> Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llwys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd neu ewinedd ffug.

Yn ystod yr arolygiad, roedd rhai cleifion wedi dychwelyd i'r ganolfan eni er mwyn cael cymorth bwydo ar y fron. Gwelsom fod prydau bwyd hefyd yn cael eu darparu iddynt yn ystod eu harhosiad.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod prosesau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer storio, rhoi a gweinyddu meddyginiaethau yn ddiogel yn y ganolfan eni.

Gwelsom fod yr oergelloedd a oedd yn cael eu defnyddio i storio meddyginiaethau yn cael eu harchwilio bob dydd er mwyn sicrhau bod y tymheredd o fewn y terfynau cywir ar gyfer storio meddyginiaethau yn ddiogel. Roeddent hefyd yn cael eu cadw dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Roedd cyffuriau a reolir hefyd yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Gwelsom y cofnodion arfer rheoli cyffuriau a reolir ac roedd y wybodaeth wedi'i chofnodi'n glir.

Gwelsom fod yr arweinydd gweithredol yn cynnal archwiliadau rheoli meddyginiaeth rheolaidd, er mwyn helpu i sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd bydwraig ddiogelu wedi'i phenodi ar gyfer y bwrdd iechyd ac roedd y staff yn gallu disgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder diogelu. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu yn ystod y 12 mis diwethaf.

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer archwilio cyfarpar dadrebu'r cleifion a gwelsom fod prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio o hyd. Gwelsom hefyd fod arweinydd gweithredol y ganolfan eni yn goruchwyllo'r archwiliadau hyn yn dda.

Roedd yr holl gyfarpar a oedd ar gael yn y ganolfan eni yn cael ei archwilio'n rheolaidd fel rhan o'r gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol a gynhaliwyd gan y staff, dan oruchwyliaeth yr arweinydd gweithredol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cardiocograffeg (CTG)<sup>11</sup> ar gael yn yr uned eni a ddefnyddiwyd yn bennaf i fonitro cleifion cynenedigol yn bennaf yn uned asesiadau dydd y ganolfan eni. Dywedwyd wrthym pe bai unrhyw annormaleddau yn cael eu nodi yng nghuriad calon y ffetws, byddai'r cleifion yn cael eu cyfeirio a/neu eu trosglwyddo i uned obstetrig ar gyfer asesiad neu gamau gweithredu pellach.

Cadarnhaodd y cleifion a'r staff fod y cleifion yn y ganolfan eni yn gyfforddus ac yn cael gofal da. Roedd dulliau lleddfu poen ar gael a dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael gwybodaeth gytbwys ar ddefnyddio'r rhain, er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg. Er enghraifft, byddai angen i glaf a oedd am i'w boen gael ei lleddfu gan epidwral gael ei drosglwyddo i uned obstetrig a byddai'r staff yn esbonio hyn er mwyn sicrhau bod y claf yn ymwybodol o oblygiadau'r penderfyniad.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn gallu ei roi i'w cleifion.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym am brosiect peilot y mae'r bwrdd iechyd ar fin ei roi ar waith, a arweinir gan fydwraig iechyd y cyhoedd, a allai o bosibl gael effaith ar nifer y menywod sy'n gallu defnyddio'r gwasanaethau yn y ganolfan eni. Esboniwyd bod gofal cynenedigol i fenywod sydd â mynegai crynswth corfforol<sup>12</sup> rhwng 35 a 40 yn cael ei reoli gan feddyg ymgynghorol ar hyn o bryd. Felly, mae'r cleifion hynny yn rhoi genedigaeth i'w babanod mewn uned a arweinir gan obstetryddion. Bydd y prosiect peilot yn ystyried a all y cleifion hynny, os nad oes ganddynt unrhyw ffactorau risg eraill, gael gofal cynenedigol gan y bydwragedd cymunedol, a chael cynnig y cyfle i roi genedigaeth i'w baban yn y ganolfan eni. Dywedwyd wrthym y byddai meini prawf llym ar gyfer y cleifion sy'n gallu bod yn rhan o'r prosiect peilot hwn a byddai monitro gofalus yn rhan

---

<sup>11</sup> Peiriant a ddefnyddir i gofnodi curiad calon y ffetws, lle mae proses fonitro CTG barhaus ar waith

<sup>12</sup> Mesur sy'n defnyddio taldra a phwysau i gyfrifo a yw pwysau unigolyn yn iach.

o'r broses. Pe bai'r prosiect prawf yn llwyddiannus, byddai'n rhoi mwy o ddewis i'r cleifion ynghylch eu cynlluniau geni eu hunain.

Gwelsom fod y ganolfan eni wedi cael ei henwebu ar gyfer gwobr yn ddiweddar a bod y canlyniad yn dibynnu ar gyflwyniad roedd yr arweinydd gweinyddol ei roi i'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn fuan. Byddai'r cyflwyniad yn adrodd stori'r newid i'r gwasanaeth mamolaeth yn yr ysbyty (o fod yn uned famolaeth obstetrig i fod yn ganolfan eni a arweinir gan fydwraidd) a'r effaith ar y staff, y gymuned leol a'r cleifion.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio mewnwyd y bwrdd iechyd a'u bod yn gallu dangos ble y byddent yn dod o hyd i bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Roedd cofnodion cleifion ar ffurf papur ac, er bod aelod o'r staff wrth ddesg y ganolfan eni fel rheol, gwelsom ar un achlysur fod cofnodion cleifion wedi'u gadael ar agor ar y ddesg. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion eraill neu ymwelwyr weld cofnodion cyfrinachol o bosibl.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel, allan o'r golwg, bob amser er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion.

### **Cadw cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod o safon dda. Roedd y cofnodion yn hawdd eu dilyn, yn glir, wedi'u hysgrifennu yn y fan a'r lle ac yn dangos y gofal a oedd yn cael ei ddarparu. Gwelsom fod dogfennaeth Cymru Gyfan yn cael ei defnyddio'n gyson yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.

Roedd y cofnodion yn dangos tystiolaeth bod trafodaethau â'r cleifion wedi ymdrin â'r dewisiadau geni, gan gynnwys ble a sut roeddent am roi genedigaeth i'w babanod. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, dywedodd un claf ei bod wedi cael hyfforddiant ar roi genedigaeth drwy hypnoteiddio a'i bod am gael ei gadael ar ei phen ei hun yn ystod y cyfnod esgor. Gwnaeth y fydwraig wrando a gweithredu ar hyn.

Gwnaethom edrych ar gofnodion rhai cleifion a oedd wedi cael eu trosglwyddo i uned obstetrig naill ai yn ystod y cyfnod esgor neu yn ystod y cyfnod ôl-enedigol. Gwelsom fod y ddogfennaeth o safon dda, ac bod yn cofnodi'r rhesymau pam roedd claf wedi cael ei drosglwyddo yn glir ac yn fanwl.

Gwelsom yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym fod yr ymholiad arferol yn cael ei gofnodi'n anghyson. Yr ymholiad arferol yw'r broses lle mae gweithiwr proffesiynol sy'n gofalu am fenyw yn ystod y cyfnod cynenedigol yn gofyn cwestiynau am ei diogelwch personol. Dylid gwneud hyn o leiaf ddwywaith yn ystod y cyfnod cynenedigol a'i gofnodi yn unol â hynny.

Gwelsom hefyd mewn rhai cofnodion fod llawysgrifen y meddyg yn anodd ei darllen, gan olygu ei bod yn anodd dehongli'r gofal a ddarparwyd neu'r penderfyniadau a wnaed gan y gweithiwr proffesiynol hwnnw.

Mae'r cleifion yn cadw eu cofnodion mamolaeth eu hunain, a nhw sy'n gyfrifol am fynd â nhw i'w hapwyntiadau. Gwelsom fod y ffolder a oedd yn dal cofnodion cleifion mewn cyflwr gwael yn aml. Roedd posibilrwydd y byddai'r cofnodion yn y ffolder yn dod yn rhydd ac yn cael eu colli oherwydd cyflwr y ffolder. Roedd yr uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r broblem a dywedwyd wrthym fod cyflenwyr amgen yn cael eu hystyried.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymholiadau arferol yn cael eu cofnodi a'u dogfennu'n glir yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dîm hynod gadarnhaol a phroffesiynol o staff, a oedd yn cydweithio'n agos i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd y rheolwyr yn goruchwyllo gweithgareddau'r wardiau yn ddigonol, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y staff yn gallu cael hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau a gwybodaeth a oedd yn briodol i'w rolau.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn 2019, cafodd y gwasanaethau mamolaeth yn y bwrdd iechyd eu had-drefnu.<sup>13</sup> Yn sgil hyn, nid yw Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnig gofal meddygol arbenigol i fenywod yn ystod y cyfnod esgor mwyach a chaiff hynny ei ddarparu mawr yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Dim ond gwasanaethau mamolaeth a arweinir gan fydwragedd sydd a geir yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg bellach, ers i'r ganolfan eni agor ym mis Mawrth 2019, gyda thîm bach o fydwragedd a staff cymorth.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, daeth y gwasanaethau mamolaeth o fewn y bwrdd iechyd yn destun mesurau arbennig ym mis Ebrill 2019. Roedd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo panel trosolwg

---

<sup>13</sup> <https://cwmtafmorgannwg.wales/how-we-work/plans-and-reports/changes-to-childrens-inpatient-and-maternity-services-at-royal-glamorgan-hospital/>

annibynnol<sup>14</sup> ar wasanaethau mamolaeth i fonitro gwelliannau mewn gwasanaethau. Caiff trafodaethau ffôn wythnosol rheolaidd eu cynnal â Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y dangosfwrdd mamolaeth, sy'n cynnwys meysydd megis staffio, gweithgarwch clinigol, achosion o risg, canlyniadau clinigol a hyfforddiant.

Agorwyd y ganolfan eni ar ôl i'r gwasanaethau mamolaeth ddod yn destun mesurau arbennig, ond roeddem yn gallu gweld bod gweithgarwch a oedd yn benodol i'r ganolfan eni yn dal i gael ei ystyried a'i fonitro yn y wybodaeth wythnos a oedd yn cael ei darparu ar y dangosfwrdd.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am y ganolfan eni, y cymorth a gawsant gan y rheolwyr a'u gallu i ddarparu gofal a chymorth i'w cleifion mewn amgylchedd sy'n cefnogi ethos canolfan eni annibynnol a arweinir gan fydwragedd. Roeddem yn gallu gweld bod y staff wedi cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch sefydlu'r ganolfan eni. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi, y byddent yn gwrando arnynt a'u bod yn rhydd i godi materion neu bryderon.

Disgrifiodd y rheolwyr y broses ar gyfer ymchwilio i bryderon neu ddigwyddiadau, a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu defnyddio system cofnodi digwyddiadau electronig a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny. Roedd sesiynau myfyrion wythnosol yn cael eu cynnal, lle roedd y staff yn cael eu hannog i drafod unrhyw broblemau a gawsant, er mwyn sicrhau y gellid dysgu gwersi a'u rhannu â phob rhan o'r ganolfan. Dywedodd y staff fod y broses yn fuddiol ac yn ddefnyddiol. Byddai adborth o unrhyw gwynion ffurfiol, pryderon neu adolygiadau o ddigwyddiadau hefyd yn cael ei rannu a'i drafod yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Roedd prosesau clir ar waith i sicrhau bod y gweithgarwch yn yr uned o ddydd i ddydd yn ddiogel. Fel y nodwyd eisoes, roedd hyn yn cynnwys gwiriadau ac archwiliadau dyddiol, wythnosol a misol gan y staff. Roedd y rhain yn cael eu goruchwyllo gan yr arweinydd gweithredol, yr oedd yn rhaid iddo roi sicrwydd i'r uwch-reolwyr bod hyn yn digwydd, ac adrodd ar unrhyw ganfyddiadau andwyol yn rheolaidd.

---

<sup>14</sup> <https://llyw.cymru/y-panel-trosolwg-annibynnol-ar-wasanaethau-mamolaeth>

Roeddem yn gallu gweld bod nifer o fforymau, a gafodd eu creu ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ehangach y bwrdd iechyd, lle roedd bydwragedd arbenigol ac arweinwyr clinigol yn cael eu gwahodd i drafod materion perthnasol a rhannu gwybodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o fforymau clinigol, megis un cynnedigol a sgrinio ac un ar gyfer y ward esgor, yn ogystal â fforymau llywodraethu cyffredinol megis hyfforddiant ac addysg ac adolygiadau o ddigwyddiadau clinigol. Dywedodd y staff fod cyflwyno'r cyfarfodydd hyn yn rhywbeth cadarnhaol.

Roedd y bwrdd iechyd wedi dechrau cynnal cyfarfod llywodraethu amlddisgyblaethol misol yn ddiweddar. Bu modd i ni fynd i ran o un o'r cyfarfodydd hyn yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod y cyfarfod yn gyfrwng i drafod achosion o bob rhan o wasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd, dysgu gwersi a'u rhannu â phob rhan o'r gwasanaeth. Roedd barn ac adborth y cleifion hefyd yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd.

Roedd prif fydwaig llywodraethu a risg wedi'i phenodi ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Roedd modd i ni weld bod cyfarfodydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ar ddau o safleoedd mamolaeth y bwrdd iechyd, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Roedd modd i bob aelod o'r staff fynychu'r cyfarfodydd, a byddai trafodaethau yn cael eu cynnal ynghylch achosion diweddar, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Roedd cylchlythyr wythnosol yn cael ei lunio yn dilyn y cyfarfodydd a'i rannu â phob aelod o'r staff, gan gynnwys y rhai yn y ganolfan eni, a oedd yn cynnwys negeseuon allweddol i gefnogi datblygiad a dysgu. Gwelsom fod y cylchlythyr hefyd yn tynnu sylw at arferion da.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hynod gadarnhaol am y ganolfan eni a'r newidiadau roeddent wedi'u gweld dros y misoedd blaenorol. Gwelsom dîm o weithwyr proffesiynol a oedd yn frwd am eu gwaith ac yn awyddus i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion mewn amgylchedd lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr. Gwelsom ysbryd tîm cadarnhaol o fewn y ganolfan eni a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn eu rolau.

Gwnaethom siarad â staff a rheolwyr y ganolfan eni ac edrych ar y rota a gwelsom fod lefelau priodol o staff i'w galluogi i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cleifion sy'n esgor yn y ganolfan eni yn cynyddu bob mis, ond bod ganddynt nifer digonol o staff ar hyn o bryd i'w



galluogi i ddarparu'r gofal angenrheidiol. Roedd modd i ni weld bod rota a phroses ar waith er mwyn i'r staff alw bydwagedd cymunedol i mewn i ddarparu cymorth ychwanegol pe bai nifer y cleifion yn cynyddu yn ystod sifft.

Roedd nifer y staff yn briodol i anghenion y ganolfan eni, ond gallai salwch gael effaith negyddol bosibl gan fod y tîm yn fach ac nad oedd llawer o adnoddau i ddarparu cymorth ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod y tîm yn cydweithio'n dda iawn a bod y tîm yn rheoli'r broses o gyflenwi ar gyfer sifftiau o ganlyniad i salwch. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod hyn yn gweithio'n dda gan fod aelod o'r staff yn absennol yn annisgwyl. Gwelsom fod y staff yn barod i newid ac addasu sifftiau i gyflenwi yn ystod yr absenoldeb, a bod yr arweinydd gweithredol a bydwraig yr uned asesiadau dydd yn rhoi cymorth clinigol yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod modd darparu gofal yn ddiogel. Dywedwyd wrthym eu bod yn gallu defnyddio bydwagedd cymunedol pe bai angen.

Roedd gan y ganolfan eni nifer o weithwyr cymorth gofal iechyd, a oedd yn gweithio ochr yn ochr â'r bydwagedd yn ystod pob sifft. Dywedwyd wrthym ac roeddem yn gallu gweld, drwy'r rota, fod achlysuron pan nad oedd gweithiwr cymorth gofal iechyd ar gael a bod bydwraig wedi llenwi'r rôl hon. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau bod digon o staff yn y ganolfan eni, ond gwnaethom gwestiynu a oedd defnyddio bydwagedd i lenwi'r rôl hon yn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd.

Gwnaethom ystyried y trefniadau hyfforddiant i staff y ganolfan eni a gweld bod prosesau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn gallu cwblhau hyfforddiant er mwyn cynnal eu sgiliau. Roedd yr arweinydd gweithredol yn trefnu lleoedd i'r staff ar y cyrsiau hyfforddiant perthnasol ac yn monitro eu presenoldeb. Roedd presenoldeb ar gyrsiau hyfforddiant hefyd yn cael ei monitro gan gydgysylltwyr hyfforddiant bydwagedd proffesiynol ac uwch-reolwyr. Roedd fforwm hyfforddiant ac addysg y bwrdd iechyd yn cael ei gadeirio gan y dirprwy bennaeth bydwreigiaeth, ac yn trafod cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant. Roeddem yn gallu gweld bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn benodol i'r ganolfan eni, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau. Roeddem hefyd yn gallu gweld bod y rhain yn cael eu profi'n rheolaidd, drwy hyfforddiant ar sgiliau ac ymarferion, a'u trafod gan y tîm yn ystod sesiynau myfyrio wythnosol. Dywedwyd wrthym fod bydwagedd cymunedol hefyd yn cael eu gwahodd i gwblhau hyfforddiant, yn ogystal â chael eu gwahodd i'r sesiynau myfyrio wythnosol. Dywedodd y staff wrthym fod y sesiynau'n fuddiol, gan eu bod yn rhoi cyfle iddynt fyfyrion ar eu harferion mewn amgylchedd proffesiynol a chefnogol.

Roeddem yn gallu gweld cofnodion i ddangos bod y staff naill ai wedi mynychu neu eu bod wedi trefnu i fynychu'r tri diwrnod astudio gorfodol gofynnol er mwyn

helpu i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn berthnasol ac yn gyfredol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant PROMPT<sup>15</sup>.

Gwelsom gofnodion i ddangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael arfarniad o'u gwaith o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd wrthym fod cynllun ar waith i sicrhau y byddai pawb arall yn cael arfarniad erbyn diwedd mis Hydref. Roedd y goruchwyliwr bydwagedd yn darparu goruchwyliaeth glinigol ac roedd gofyn iddo gwblhau pedair awr y flwyddyn, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Roedd proses newydd wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar ar gyfer bydwagedd band chwech ac roedd wrthi'n cael ei chyflwyno ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Roedd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r bydwagedd band chwech gwblhau pasbort bob blwyddyn i ddangos y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â'r rôl.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a oes digon o weithwyr cymorth gofal iechyd yn y ganolfan eni er mwyn darparu'r lefelau priodol o ofal a chymorth i'r cleifion a'r bydwagedd.

---

<sup>15</sup> PROMPT - Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol. Mae'r cwrs hwn yn dysgu'r rhai sy'n ei fynychu sut i ymdrin ag argyfyngau obstetrig.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Brenhinol Morgannwg

**Ward/adran:** Canolfan Eni Tirion

**Dyddiad arolygu:** 10, 11 a 12 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Brenhinol Morgannwg

**Ward/adran:** Canolfan Eni Tirion

**Dyddiad arolygu:** 10, 11 a 12 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella				
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen gel saniteiddio alcohol ychwanegol wrth fynedfa'r ganolfan eni er mwyn helpu i reoli heintiau'n effeithiol.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae gel saniteiddio alcohol bellach ar gael wrth fynedfa'r ganolfan eni.	Arweinydd Tirion	Cwblhawyd 30 Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod	3.4 Technoleg	Mae'r holl nodiadau achos bellach yn	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel, allan o'r golwg, bob amser er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion.	Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu	cael eu cadw o'r golwg a'u storio yn yr ystafell driniaeth gyda'r drws ar gau.  Mae'r Uwch-fydwraig bellach yn cynnal Hapwiriadau bob wythnos i sicrhau cydymffurfiaeth.		30 Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ymholiadau arferol yn cael eu cofnodi a'u dogfennu'n glir yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.	3.5 Cadw cofnodion	Roeddem wedi nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn gwella cydymffurfiaeth ag ymholiadau arferol. Cafodd canlyniadau ein harchwiliad ein hunain eu rhannu â'r staff mewn cyfarfodydd tîm.  Mae archwiliadau rheolaidd parhaus ar waith i fonitro cydymffurfiaeth.	Bydwraig Arweiniol Diogelu	– Cwblhawyd 30 Medi 2019
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a oes digon o weithwyr cymorth gofal iechyd yn y ganolfan eni er mwyn darparu'r lefelau priodol o ofal a chymorth i'r cleifion a'r bydwragedd.	7.1 Y Gweithlu	Mae cyfanswm o 6.28 gweithiwr cymorth cyfwerth ag amser cyflawn yn cael eu cyflogi er mwyn i'r ganolfan eni fodloni'r gofynion staffio o gael un gweithiwr cymorth gofal iechyd fesul sifft 24/7. Mae achosion diweddar o brinder staff wedi deillio o salwch hirdymor ac absenoldeb Mamolaeth. Cyfradd salwch	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd 30 Hydref 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>bresennol 0%</p> <p>Mae'r uwch-fydwraig yn monitro'r lefelau staffio bob wythnos. Caiff unrhyw broblemau eu huwchgyfeirio i'n dangosfwrdd monitro bob wythno. Cyflwynir adroddiad ar y lefelau staffio bob wythnos yng nghyfarfod busnes y gyfarwyddiaeth.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Jane Phillips

**Swydd:** Pennaeth Bydwreigiaeth

**Dyddiad:** 31.10.19